## E-GYLCHLYTHYR ARLOESEDD

**Rhifyn 24 – Tachwedd 2007**

E-Gylchlythyr Arloesedd: Ydych chi angen help i wneud y cysylltiadau cywir yn eich busnes? ***Gwybodaeth bellach yn rhifyn y mis hwn.***

**1. Dau Ddigwyddiad Pwysig i'ch Dyddiadur – Gweithredu Arloesedd a BioCymru 2008 – Archebwch eich lle yn awr!**

**2. Cynghorion Campus i'ch Busnes**
Gyda nifer cynyddol o ddigwyddiadau proffil uchaf yn dod i Gymru, mae Rob Holt, Prif Weithredydd Cwpan Ryder Cymru, yn rhannu ei gynghorion campus i helpu busnesau i fanteisio'n fasnachol ar y cyfleoedd. ***Gwybodaeth bellach islaw ..***

**3. Arddangosfa Arloesedd**
Mae gwneud y cysylltiadau cywir wedi bod yn sbardun llwyddiant i Paul Cattell, dyfeisydd Snorekil, dyfais ddeintyddol gwrth-chwyrnu. ***Gwybodaeth bellach islaw …***

**4. Arloesedd Ymarferol**
Ydych chi wedi ystyried datblygu partneriaethau neu gydweithredu gyda sefydliadau eraill? Gwybodaeth bellach islaw …

**5. Oes gennych chi syniad gwych ond angen help i fynd ag ef i'r farchnad?**
Mae Rhwydwaith Arloeswyr Cymru yn cefnogi arloeswyr a dyfeiswyr unigol ledled Cymru. ***Gwybodaeth bellach islaw …***

**6. Dyddiadur Digwyddiadau Arloesedd yng Nghymru**

### 1. Dau Ddigwyddiad Pwysig i'ch Dyddiadur! Blaen-hysbys – ARCHEBWCH EICH LLE YN AWR

**GWEITHREDUARLOESEDD**

**Cynnyrch newydd, syniadau newydd, technolegau newydd**
**10 a 11 Mawrth 2008 yn y Ganolfan Griced Genedlaethol, Caerdydd**

Digwyddiad newydd ac unigryw lle medrwch gwrdd â buddsoddwyr, arbenigwyr y diwydiant, trwyddedwyr, prynwyr a gweithwyr busnes proffesiynol. Tri chyfle gwych i chi:

- Cymryd gofod arddangosfa – i arddangos eich cynnyrch newydd, syniadau newydd neu dechnolegau newydd
- Cofrestru ar gyfer y digwyddiad Broceriaeth Arloesedd – byddwn yn cyfateb eich proffil gyda phartneriaid sydd â diddordeb ac yn blaen-drefnu cyfarfodydd un-i-un preifat
- Archebu eich lle yn Gweithredu Arloesedd – i rwydweithio, adeiladu perthynas busnes a chreu cysylltiadau newydd.

Ewch i [www.InnovationIntoAction.co.uk](http://www.InnovationIntoAction.co.uk) HEDDIW

**Cynhadledd BioCymru 2008 a Digwyddiad Bio-bartneru**
**12 – 13 Mawrth 2008 yng Ngwesty'r Fro, Hensol, ger Caerdydd**

"Gwych - defnyddiol tu hwnt - rhagorol!" "Yn bendant y math o gyfle rhwydweithio rydym ei angen yng Nghymru". "Roedd y digwyddiad yn ferw go iawn." "Diddorol tu hwnt a chyfle gwych i wneud cysylltiadau busnes."

Denodd BioCymru 2007 dros 400 o gynrychiolwyr ac arwain at dros 300 o gyfarfodydd partneru un-i-un.

Cofrestrwch YN AWR am BioCymru 2008 yn www.biowalesevent.com

**2. Cynghorion Campus i'ch Busnes**

Gyda nifer cynyddol o ddigwyddiadau proffil uchel yn dod i Gymru, mae Rob Holt, Prif Weithredwr Cwpan Ryder Cymru, yn rhannu cynghorion i helpu busnesau i fanteisio'n fasnachol ar y cyfleoedd.

"Rydym yn awyddus i annog busnesau Cymru i ddefnyddio digwyddiadau fel y Cwpan Ryder fel catalydd ar gyfer cyfleoedd busnes y dyfodol. Ond cofiwch fod y rhain yn ddigwyddiadau proffil uchel a phroffesiynol tu hwnt sydd eisoes â chyflenwyr profiadol ac mae'n bwysig bod yn realistig.

Dylech gynllunio eich ymagwedd yn ofalus er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn. Ymchwiliwch y digwyddiad yn drwyadl - cael gwir ddealltwriaeth am beth mae, pa feini prawf sydd ganddynt ac anghenion ehangach y digwyddiad. Dylech gael golwg glir ar eich cynnyrch neu'ch gwasanaethau eich hunan a sut y maent yn unigryw. Yna cyfatebwch eich cynnyrch neu'ch gwasanaethau gydag anghenion penodol y digwyddiad ac arddangos sut y medrwch ychwanegu gwerth.

Mae busnesau ledled Cymru eisoes yn manteisio – a oes cyfleoedd i chi?"

I gael gwybodaeth bellach gweler www.rydercupwales2010.com

**3. Arddangosfa Arloesedd**

Nid yw chwyrnu yn destun sbort. Amcangyfrifir fod hyd at hanner poblogaeth Prydain yn chwyrnu gyda llawer o chwyrnwyr yn profi blinder cronig a hwyliau drwg oherwydd yr amharwyd ar eu cwsg.

Mae Sleepworks Products Cyfyngedig o Ogledd Cymru, enillwyr Gwobr Cychwyn Arloesedd MediCymru 2007, wedi datblygu dyfais syml, effeithiol a rhwydd ei defnyddio o'r enw Snorekil sy'n atal ar ymyriad ar gwsg oherwydd chwyrnu.

Dyfeisiwyd Snorekil - datrysiad cost isel, dros y cownter nad oes angen unrhyw lawdriniaeth neu osod arbennig - gan Paul Cattell, technegydd deintyddol gyda 35 mlynedd o brofiad. Gwneir y ddyfais o finyl meddal sydd ar ôl ei chynhesu mewn dŵr poeth yn mowldio'i hunan yn gysurus o amgylch dannedd y chwyrnwr. Medrir ei haddasu i atal yr ên isaf rhag ysigo ar i lawr

mewn cwsg, gan achosi blociad rhannol a sŵn ailadroddus cyfarwydd chwyrnu.

Pan oedd yn byw yng Nghanada, cynhaliodd Mr Cattell ymchwil i MADS - dyfeisiau dyrchafu mandibal - sy'n gweithio drwy gadw gên isaf y cysgwr yn ei lle i helpu i gadw'r llwybrau aer yn glir. Ar ôl symud i Landrillo yn Rhos, cysylltodd gyda chwmnïau yng Nghymru i gael yr offeryniaeth a mowldiau chwistrelliad i greu Snorekil, a sefydlodd ei fusnes i ddod â'r ddyfais i'r farchnad.

"Gyda chymorth gan Rwydwaith Arloeswyr Cymru (WIN), aethom â Snorekil i Arddangosfa Ryngwladol Dyfeisiadau Genefa ac ennill medal efydd yn yr adran iechyd", esboniodd Mr Cattell. "Fe wnaeth Snorekil wedyn ennill medal arian yn y Sioe Ddyfeisiadau Brydeinig yn Llundain ym mis Hydref y llynedd a chafodd sylw fel stori lwyddiant yn y Sioe eleni.

"Roedd yn wych ennill y gwobrau hyn ac mae'r cysylltiadau a wnaethom yn y ddwy Arddangosfa wedi bod yn werthfawr tu hwnt. Rydym wedi trefnu cytundeb dosbarthu llwyddiannus iawn gyda Impexbo, cwmni o'r Swistir, sy'n arbenigo mewn cynnyrch deintyddol. Maent hefyd yn awyddus i ddosbarthu'r Snorekil newydd llai sy'n cael ei dreialu ym Mhrydain ar hyn o bryd.

"Soniodd WIN wrthym am ddigwyddiad broceriaeth BioCymru 2007 ac fe wnaethom gysylltiadau da yno hefyd. Cawsom ein cyflwyno i Ganolfan Arloesedd Boots a bwriadwn weithio gyda hwy yn fuan iawn. Drwy gysylltiad arall a wnaed yn Bio Cymru rydym yn datblygu cynlluniau i fynd i mewn i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

"Mae'r Dwyrain Pell wedi dangos llawer iawn o ddiddordeb yn y cynnyrch, yn neilltuol gan ein bod wrthi'n datblygu Snorekil llai ac mae trafodaethau yn mynd rhagddynt. A gyda Busnes Rhyngwladol Cymru, rydym hefyd yn ymchwilio marchnadoedd y Dwyrain Canol drwy fynychu Arddangosfa Iechyd Arab ym mis Ionawr.

"Ennill Gwobr Arloesedd MediCymru oedd yr hufen ar y deisen!", meddai Mr Cattell. "Rwyf yn wirioneddol ddiolchgar am yr help a gawsom gan Lywodraeth Cynulliad Cymru - mae'n wirioneddol wedi bod yn sbardun i'n llwyddiant a rhoi cysylltiadau anhygoel i ni ar gyfer y dyfodol."

Os ydych yn edrych am y cysylltiadau cywir i'ch busnes, ewch i www.biowalesevent.com a www.InnovationIntoAction.co.uk i gael mwy o fanylion am y ddau ddigwyddiad a gynhelir yng Nghymru ym mis Mawrth 2008.

**4. Arloesedd Ymarferol – Cydweithredu gyda phartneriaid**

I lawer o gwmnïau, mawr a bach, y llwybr traddodiadol i arloesi fu datblygu syniadau yn fewnol, un ai drwy swyddogaeth ymchwil a datblygu ffurfiol neu drwy annog staff i fod yn greadigol, a mynd â hwy i'r farchnad. Nid felly

y mae hi bellach ac mae'r tueddiad tuag at 'arloesedd agored' yn cyflymu. Mae cwmnïau sy'n llwyddo yn cydweithredu gyda phartneriaid mewn ffyrdd blaengar sy'n hybu gwerth a thwf i bawb.

Mae cwmnïau mawr megis IBM a BT a nifer o gwmnïau fferylliaeth amlwg iawn wedi sylweddoli grym chwilio'n barhaus am syniadau newydd ac maent yn gweithio gyda phrifysgolion, cyflenwyr ac arloeswyr allanol. Mae gan hyd yn oed Procter & Gamble, un o'r cwmnïau mwyaf traddodiadol gyda phroses arloesi gaeedig wedi'i chanoli o amgylch ei weithrediadau ymchwil a datblygu cyfrinachol ei hunan, bellach adran gyfan ar gyfer cydweithredu gyda phartneriaid allanol ar gynnyrch a thechnolegau newydd.

Mae'r tueddiad hwn wedi gwastatau'r maes chwarae ac wedi rhoi cyfle i unigolion a chwmnïau i gystadlu'n fyd-eang. Mae amrediad o opsiynau partneriaeth, rhwng dyfeiswyr unigol, cwmnïau blaengar a chwaraewyr sylweddol, yn galluogi llif cyson o gynnyrch a gwasanaethau newydd i ddod i'r farchnad gyda manteision i bawb sy'n gysylltiedig.

Fedrech chi hybu eich cyfleoedd o lwyddiant drwy ddatblygu partneriaethau neu gydweithredu gyda sefydliadau eraill?

Ewch i www.biowalesevent.com a www.InnovationIntoAction.co.uk i gael manylion pellach am sut y medrwch ddatbygu cyfleoedd partneriaeth mewn dau ddigwyddiad cyffrous yn 2008.

**5. Rhwydwaith Arloeswyr Cymru – cefnogi arloeswyr unigol a dyfeiswyr ledled Cymru.**

Mae Rhwydwaith Arloeswyr Cymru (WIN) yn wasanaeth cefnogaeth di-dâl sy'n darparu amrediad cynhwysfawr o help proffesiynol, cefnogaeth ymarferol a chysylltiadau masnachol i ddyfeiswyr ledled Cymru.

Mae WIN yn gweithredu drwy rwydwaith rhanbarthol o bedwar clwb yng Ngogledd, Canolbarth, De Orllewin a De Ddwyrain Cymru. Cynhelir cyfarfodydd clwb yn fisol ac maent yn gyfle i aelodau rannu profiadau, gwybodaeth a sgiliau. Yn ogystal â sgyrsiau gan arloeswyr a dyfeiswyr llwyddiannus, cynghorwyr proffesiynol a phartneriaid masnachol, mae gan aelodau fynediad i gefnogaeth a chyngor cyfrinachol gan Gynghorwyr Arloesedd a Thechnoleg a chynghorwyr proffesiynol eraill.

Cysylltwch â thîm WIN ar 08457 775577, e-bost WIN win@wales.gsi.gov.uk neu ymweld â www.win4wales.com i gael gwybod sut y gall Rhwydwaith Arloeswyr Cymru eich helpu chi.

**6. Digwyddiadau Arloesedd yn eich Ardal**

- ***Busnesau Bach a Chanolig a Phrifysgolion: Datblygu Partneriaethau Effeithlon ar gyfer Twf Busnes***
    - Gwesty Dewi Sant, Caerdydd a Technium OpTIC, Llanelwy (drwy gynhadledd fideo): 16 Tachwedd 2007
- ***Diwrnod Technoleg y Dyfodol***

  - Technium CAST, Bangor : 20 Tachwedd 2007
- ***Cynhadledd "Amser i Ddisgleirio"***
  - Venue Cymru, Llandudno : 21 Tachwedd 2007
  - www.iod.com dan Events at a Glance
- ***Gwobrau Cymraes y Flwyddyn 2007***
  - Arena Ryngwladol Caerdydd : 23 Tachwedd 2007
  - www.wmeevents.co.uk/welshwoman/
- ***Her Waterton : Galw'r Penderfyniadau Mawr***
  - Canolfan Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr : 5 Rhagfyr 2007
- ***Gwobrau Ansawdd Cymru 2007***
  - Neuadd y Ddinas, Caerdydd : 6 Rhagfyr 2007
  - www.walesqualitycentre.org.uk/award.htm
- ***Digwyddiad Broceriaeth ECM²***
  - ECM², Port Talbot : 11 Rhagfyr 2007
- ***Beth mae Pob Busnes ei Angen BYW***
  - Canolfan Arddangos De Ddwyrain Cymru, Llantrisant : 13 Chwefror 2008
  - www.whateverybusinessneeds.co.uk
- ***Arloesedd ac Entrepreneuriaeth drwy Ddeorfa Busnes***
  - Technium CAST, Bangor : 20 Chwefror 2008
  - Canolfan Arloesedd Springboard, Cwmbran : 21 Chwefror 2008
- ***Gwobrau Arwain Cymru***
  - Gwesty Hilton, Caerdydd : 21 Chwefror 2008
  - www.leadingwalesawards.com
- ***Gweithredu Arloesedd: Digwyddiad Broceriaeth Technoleg***
  - Canolfan Griced Genedlaethol, Gerddi Sophia, Caerdydd : 10 a 11 Mawrth 2008
- ***Gwobrau Arloeswragedd a Dyfeiswragedd Prydeinig y Flwyddyn***
  - Neuadd y Ddinas, Caerdydd : 11 Mawrth 2008
- ***BioCymru 2008***
  - 12 a 13 Mawrth 2008 : Gwesty'r Fro, ger Caerdydd
- ***Her Waterton : Pam fod gweithredu Rheolaeth Newid yn mynd o chwith?***
  - Canolfan Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr : 13 Mawrth 2008
- ***Dyfodol Dylunio***
  - Theatr Glanyrafon, Casnewydd : 19 Mawrth 2008
  - enquiries@designwales.org.uk

I gael gwybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau uchod, anfonwch neges e-bost at arloesedd@cymru.gsi.gov.uk

Gwnewch i arloesedd weithio i chi,
**Golygydd E-gylchlythyr Arloesedd**

O.N. Os ydych wedi mwynhau'r neges hon a'i chael yn ei defnyddiol, anfonwch hi ymlaen at eich ffrindiau a'ch cydweithwyr fel y medrant hwy ei mwynhau hefyd.

Ac os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu sylwadau am y rhifyn hwn, anfonwch e-bost at arloesedd@cymru.gsi.gov.uk

**I dynnu'ch enw oddi ar** y rhestr tanysgrifwyr, anfonwch neges e-bost at arloesedd@cymru.gsi.gov.uk.